**Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Department for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf:
Eich Cyf:
Dyddiad: 10 Fawrth 2016

Annwyl Syr/Madam

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**CYNLLUN FFORDD GYSWLLT DWYRAIN Y BAE YR A4232**

**PENDERFYNIAD ASESIAD O EFFAITH AMGYLCHEDDOL O DAN RAN VA O DDEDDF PRIFFYRDD 1980**

**RHEOLIADAU GWARCHOD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2010 – RHEOLIAD 61: ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER SAFLEOEDD EWROPEAIDD**

**TREFNIADAU DIRPRWYO**

1. Trosglwyddwyd y swyddogaethau ar gyfer penderfynu a ddylid adeiladu'r ffordd uchod ai peidio i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r penderfyniad yn rhan o gyfrifoldeb Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ("y Gweinidog").

**CYFLWYNIAD**

2. Cynnig Gweinidogion Cymru yw adeiladu Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae. Mae'r Cynllun yn cynnwys adeiladu ffordd ddeuol ddwy lôn newydd 1km o hyd a fydd yn cysylltu cylchfan bresennol Queens Gate yr A4232 â chylchfan Ocean Way ar yr un lefel. Caiff y lôn gerbydau ei dylunio â therfyn cyflymder o 50 milltir yr awr a bydd yn cynnwys ffordd ddeuol ddwy lôn â llain ganol galed 2.5m. Gosodir rhwystrau diogelwch yn y llain ganol a goleuadau priffyrdd integredig. Goleuir y lôn gerbydau yn unol â'r safonau priffyrdd presennol. Darperir llwybr troed / llwybr beicio cyfunol ar ochr ddeheuol y ffordd gyswllt. Yn ôl y rhaglen bresennol bydd gwaith adeiladu'n dechrau ym Mawrth 2016 a disgwylir ei gwblhau erbyn Ebrill 2017.

Byddai'r Ffordd Gyswllt yn cael ei hadeiladu yn unol â phwerau Gweinidogion Cymru fel awdurdod priffyrdd o dan adran 24(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980 a byddai angen cytundeb ar wahân gyda Chyngor Dinas Caerdydd o dan adran 5 o Ddeddf Priffyrdd 1980.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 02920801166
gr.morgan@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

## Y CYNLLUN

3. Mae'r Cynllun yn rhan o Ffordd Ddosbarthu Cyrion Caerdydd sy'n cysylltu de Caerdydd â'r M4 yng Nghyffordd 33 i'r gorllewin ac yng Nghyffordd 30 i'r dwyrain. Bydd Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae yn darparu cysylltiad rhwng Ffordd Gyswllt bresennol Butetown yr A4232 a Rover Way.

Mae'r Cynllun yn cynnwys adeiladu ffordd ddeuol ddwy lôn newydd 1km o hyd a fydd yn cysylltu cylchfan bresennol Queens Gate yr A4232 a chylchfan Ocean Way. Bydd ôl troed y cynllun yn ymestyn dros arwynebedd o tua 5.5ha.

Bydd y lôn gerbydau newydd yn cysylltu â chylchfan bresennol Queens Gate a chylchfan Ocean Way ar yr un lefel.

Bydd y lôn gerbydau newydd yn cael ei hadeiladu ar lefel bresennol y tir neu uwchben hynny, yn bennaf ar draphont wedi'i chysylltu ag arglawdd dynesu yn y pen gorllewinol. Caiff y lôn gerbydau ei chynllunio fel ffordd gyswllt â chyflymder o 85 cilomedr yr awr (terfyn cyflymder o 50 milltir yr awr) yn cynnwys ffordd ddeuol ddwy lôn 7.3m â stribedi caled 1m yn cael eu gwahanu gan lain ganol galed 2.5m. Gosodir rhwystrau diogelwch uchel yn y llain ganol a bydd yn cynnwys goleuadau stryd. Darperir arwyddion traffig yn unol â'r Rheoliadau Arwyddion Traffig cyfredol a Chyfarwyddiadau Cyffredinol.

Darperir llwybr troed / llwybr beicio cyfunol ar ochr ddeheuol y ffordd gerbydau a bydd sgrin 1.8m o uchder yn atal cerbydau rhag mynd arno.

Darperir draeniau hidlo / cario dŵr i ddraenio'r briffordd a bydd y dŵr yn cael ei ryddhau drwy ryng-gipwyr petrol i ddwy ollyngfa a fydd yn rhedeg i Ddoc y Rhath.

## Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

### Ymgynghoriad

4. Cyhoeddwyd y cynigion, gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol, ar 23 Rhagfyr 2015 yn unol â Chyfarwyddeb yr UE 2014/52/EU (fel y'i diwygiwyd). Yn ychwanegol at hyn, cyhoeddwyd Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol o effeithiau posibl y Cynllun ar Aber Afon Hafren yn unol â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

5. Yn unol ag Adran 105B o Ddeddf Priffyrdd 1980 a Rheoliad 61 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, rhoddwyd Hysbysiadau Cyhoeddus yn y South Wales Echo ar 23 Rhagfyr 2015 ac anfonwyd yr hysbysiadau, ynghyd â Chrynodeb Annhechnegol y Datganiad Amgylcheddol, at y rhestr o dderbynwyr statudol ac anstatudol yn Atodiad A, gan wahodd sylwadau erbyn 3 Chwefror 2016.

## LLEOLIADAU ADNEUO

6. Rhoddwyd copïau o'r Datganiad Amgylcheddol, y Crynodeb Annhechnegol a'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol yn y lleoliadau a ganlyn:

i. Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Y Gangen Gorchmynion, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

ii. Gweithrediadau'r Ddinas, Cyngor Dinas Caerdydd, Neuadd y Ddinas, Caerdydd CF10 4UW.

**MATERION A GODWYD MEWN CYSYLLTIAD Â'R CYNIGION, Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL A'R DATGANIAD I HYSBYSU ASESIAD PRIODOL**

7. Ceir crynodeb isod o'r materion a godwyd mewn sylwadau ar y cynigion a'r Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru iddynt (a ddangosir mewn print italig).

7.1 Cyfoeth Naturiol Cymru

- Gofynnwyd o ba Dderbynyddion Ansawdd Aer y casglwyd data i ddangos y bydd dyddodiad nitrogen yn lleihau rhwng 2016 a 2031. Cred Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'n well pe bai pwyntiau derbyn wedi'u lleoli yn Aber Afon Hafren ger y tro yn Rover Way, rhwng Derbynyddion R1-R3 ac R4-R7. Byddai hynny'n golygu bod y derbynyddion mewn lleoliad gwell i fesur yr effeithiau ar y cynefinoedd gan fod y tro hwn yn debygol o fod yn ddarn o ffordd lle bydd traffig yn cyflymu ac yn arafu yn y ddau gyfeiriad a lle mae allyriadau $NO_x$ a dyddodiad nitrogen yn achosi'r risg fwyaf i'r cynefin.

  *Mae Tablau 6.17 a 6.18 yn dangos bod Aber Afon Hafren wedi cael ei modelu yn y man agosaf at y ffordd sy'n cael ei heffeithio. Roedd y pwynt hwn 35m o'r Aber, sy'n cyfateb i'r tro ar Rover Way, felly mae'n cyd-fynd â barn Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â lleoliad pwyntiau derbyn. Mae Derbynyddion R1 – R3 ac R4 – R7 ar y llun yn cyfeirio at dderbynyddion dynol yn unig.*

  *Mae'r asesiad wedi'i seilio ar ffigurau traffig a ddarparwyd gan Asiant y Cyflogwr o waith cychwynnol a wnaethpwyd yn 2008, ac mae wedi'i ategu gan arolygon cyffordd a gynhaliwyd yn yr ardal yn Nhachwedd 2013. Mae pob un o'r partïon yn credu bod y tybiaethau twf yn y model traffig presennol yn uchel. Mae'r model yn rhagdybio cyfraddau twf cyfartalog cenedlaethol nad ydynt yn debygol o gael eu gwireddu yng Nghaerdydd. Yn ychwanegol at hyn, mae'r model yn rhagdybio datblygiad ym Masn y Rhath sy'n cyfateb i 4,000 o swyddi, nad yw'n debygol o gael ei wireddu erbyn blwyddyn dylunio'r cynllun. Mae'r asesiad hwn o ansawdd yr aer felly'n seiliedig ar senario achos gwaethaf yng nghyswllt allyriadau o draffig.*

- Yn dilyn yr ymholiad gan Adran yr Amgylchedd, Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru (gweler 7.3 isod), holodd Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r diagram seren wynt a gynhyrchwyd mewn ymateb i'r pryder a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru.

  *Mae eglurhad o'r asesiad o ansawdd aer a'r effeithiau wedi'i gynnwys fel Atodiad E i adroddiad yr Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd.*

  *Mae hyn yn dangos bod yr Aber wedi'i modelu yn y man agosaf at y ffordd sy'n cael ei heffeithio (pellter o 35m o Rover Way) a bod gwelliant bach i'w weld mewn dyddodiad nitrogen (h.y. lleihad) ar gyfer 2016 a 2031. Ym mhob achos mae cyfanswm y dyddodiad nitrogen yn is na hicyn isaf y Llwyth Critigol sef 20kg/N/ha/y flwyddyn.*

  *Mae gwelliant yn ansawdd yr aer, ac nid yw cyfeiriad y gwynt yn gwneud unrhyw wahaniaeth.*

7.2 Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent (GGAT)

- Argymell penodi Curadur Archaeolegol i oruchwylio'r gwaith archaeolegol drwy gydol cyfnod y prosiect yn unol â'r arferion gorau sy'n cael eu derbyn.

  *Bydd Cyd-fenter Dawnus Ferrovial Agroman (DFAJV) yn penodi Curadur Archaeolegol i'r Cynllun wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.*

- Argymell penodi contractwr archaeolegol â chymwysterau addas i fod yn gyfrifol am friff gwylio.

  *Bydd DFAJV yn penodi contractwr archaeolegol ar gyfer y Cynllun i ddarparu Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig a darparu briff gwylio ar y safle yn ôl y galw.*

7.3 Adran yr Amgylchedd, Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru

- Mynegwyd y pryderon a ganlyn gan Adran yr Amgylchedd, Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru:

  Mae nifer o ddatganiadau'n nodi y bydd Cynllun Rheoli Amgylcheddol cryf ar gyfer y Gwaith Adeiladu (CEMP) yn sicrhau na fydd 'effaith sylweddol debygol' ar y safleoedd gwarchodedig o ganlyniad i ddŵr wedi'i halogi yn ystod y gwaith adeiladu. Fodd bynnag, gan nad yw'r Cynllun wedi'i gwblhau ni allwn weld a yw'n ddigon cryf. O'r hyn a welwyd wrth edrych ar gynlluniau eraill, hyd yn oed os oes Cynllun cryf wedi'i baratoi, yn aml iawn nid yw'n cael ei gyflawni'n foddhaol. O ganlyniad, mae arnom angen sicrwydd -

a) Bod prosesau wedi'u sefydlu er mwyn cynhyrchu Cynllun Rheoli Amgylcheddol cryf ar gyfer y Gwaith Adeiladu, gan gynnwys chwiliad trylwyr er mwyn canfod nodweddion blaenorol a allai fod yn llwybrau ar gyfer llygredd.

b) Y bydd Cynllun Rheoli Amgylcheddol y Gwaith Adeiladu yn cynnwys trefniadau er mwyn sicrhau y bydd yn cael ei gyflawni'n briodol ac y bydd yn gwarchod y safleoedd o ddifri.

   *Mae gweithredu a chynnal Cynllun Rheoli Amgylcheddol y Gwaith Adeiladu yn un o Ofynion y Cyflogwr yn unol â'r contract. Mae Cyfrol 2a Atodiad D/3 o Ofynion y Cyflogwr (Gwybodaeth am y Gwaith) yn nodi beth yw gofynion sylfaenol y Cynllun a pha gamau y mae'n rhaid eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r Cynllun. Mae'r "Cylch Gorchwyl" sydd yn Atodiad D/3 bellach wedi'i atgynhyrchu yn Atodiad F o adroddiad yr Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd.*

- Ansawdd Aer

a) Dylid darparu seren wynt â nodyn byr yn egluro bod y prifwyntoedd yn chwythu i gyfeiriad y tir, h.y. eu bod yn tueddu i gario llygredd atmosfferig oddi wrth safleoedd gwarchodedig Aber Afon Hafren.

   Mae'r dadansoddiad o lygredd atmosfferig wedi'i wneud yng nghyswllt derbynyddion dynol, felly mae angen egluro sut mae'r dadansoddiad yn berthnasol i dderbynyddion gwarchod natur. Mae'n dangos nad oes cynnydd net mewn llygredd, ac yn

cadarnhau'r penderfyniad i beidio ag ystyried derbynyddion N2K ar ochr y tir mawr – mae angen nodi hyn yn y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol.

*Cynhyrchwyd diagram seren wynt ac eglurhad o'r asesiad o ansawdd yr aer a'i effeithiau fel Atodiad E i adroddiad yr Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd.*

**YSTYRIAETH Y GWEINIDOG**

8. Mae'r Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r ddadl dros y Cynllun, y Datganiad Amgylcheddol a phob barn a fynegwyd ynglŷn â'r Datganiad Amgylcheddol gan aelodau o'r cyhoedd a'r cyrff yr ymgynghorwyd â hwy.

9. Mae'r Gweinidog yn derbyn bod angen y Cynllun hwn am y rhesymau a amlinellwyd ym mharagraff 2 o'r llythyr hwn, ond bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng hyn ac effaith amgylcheddol y Cynllun ac unrhyw farn a fynegwyd gan aelodau o'r cyhoedd a'r cyrff yr ymgynghorwyd â hwy.

10. Mae'r Gweinidog yn fodlon bod sylw digonol wedi'i roi i faterion y cyfeiriwyd atynt ym mharagraffau 7.1 i 7.3. Mae hefyd yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, y cyfeirir ato yn y Datganiad Amgylcheddol, yn bodloni gofynion Cyfarwyddeb yr UE 2014/52/EU (fel y'i diwygiwyd); bod yr Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd y cyfeirir ato yn y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol o effeithiau posibl y cynllun ar yr Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a'r safle Ramsar yn unol â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, ac yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC; a bod Rheoliadau Priffyrdd (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 sy'n ymwneud â chyfranogiad y cyhoedd wedi cael eu bodloni. Mae'r Gweinidog yn nodi bod Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wedi cymeradwyo'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol.

11. Mae'r Gweinidog wedi ystyried y materion a godwyd. Er hyn, mae'n fodlon bod prosesau'r Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol / Asesiad o'r Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd wedi rhoi sylw i'r wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r effeithiau, ac mai'r cynllun cyhoeddedig (â mesurau lliniaru a gwneud iawn) yw'r cynllun gorau er mwyn cyflawni amcanion y cynllun a galluogi cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

12. O ganlyniad, mae'r Gweinidog yn fodlon bod yr ymatebion a roddwyd yn rhoi sylw digonol i'r materion a godwyd ac mae wedi penderfynu y gall y cynigion fynd yn eu blaenau.

**CYFLEU'R PENDERFYNIAD**

13. Anfonwyd y llythyr hwn a'r Hysbysiad Cyhoeddus amgaeëdig, sy'n rhoi manylion am unrhyw hawl i herio, at bawb a fynegodd farn ynglŷn â'r Datganiad Amgylcheddol a phartïon eraill sydd â diddordeb a gellir ei weld yn http://cymru.gov.uk (detholer 'Pynciau', 'Trafnidiaeth', 'Ffyrdd', 'Prosiectau Ffyrdd', 'Llythyrau Penderfynu a adroddiadau Arolygwyr"). Bydd copïau o'r llythyr hwn a'r Hysbysiad Cyhoeddus amgaeëdig, ynghyd â'r Datganiad o Ddiddordeb, y Crynodeb Annhechnegol a'r Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol hefyd ar gael i'w harchwilio yn y lleoliadau a restrir ym mharagraff 6 uchod tan 20 Ebrill 2016.

Yr eiddoch yn gywir



**A Falleyn**
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflenwi Seilwaith